**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Y BIL DIOGELU DATA A GWYBODAETH DDIGIDOL**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru, os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw bwrpas o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Mawrth 2023. Mae'r Bil yn cario drosodd a'i enw blaenorol oedd Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2). Gellir cael copi o'r Bil yn: Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol - Biliau Seneddol - Senedd y DU.

## Amcan(ion) y Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw diweddaru a symleiddio fframwaith diogelu data'r DU gyda'r bwriad o leihau beichiau ar sefydliadau ond ar yr un pryd, gynnal y safonau uchel o ran diogelu data.

## Crynodeb o'r Bil

4. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) gwreiddiol a osodwyd ar 24 Mawrth 2023, sy'n parhau'n gywir.

## Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ers LCM 2, a osodwyd ar 25 Mai 2023

5. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd.

6. Mae ymgysylltu ar lefel swyddogol a lefel Weinidogol hefyd wedi parhau mewn perthynas â phryderon yn ymwneud ag effaith y Bil ar gadw Digonolrwydd Data'r UE ac mewn perthynas â goblygiadau datganoledig y darpariaethau canlynol (fel y nodir yn LCM 1 a LCM Atodol 2).

   - Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) - cymal 60, Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth (cymal 56 fel y'i cyflwynwyd);
   - Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau - cymalau 65-81 (cymalau 61-77 fel y'u cyflwynwyd); a
   - Rhan 4, Darpariaeth arall am wybodaeth ddigidol - cymal 99, Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith

(cymal 93 fel y'i cyflwynwyd) a chymal 100, Ystyr "*appropriate national authority*".

**Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol 1 a 2**

7. O fewn yr LCM a'r LCM atodol, a osodwyd ar 24 Mawrth a 25 Mai 2023 yn y drefn honno, argymhellais y dylid rhoi cydsyniad mewn cysylltiad â:
    - Chymal 56 (54 fel y'i cyflwynwyd), Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol;
    - Cymal 98 (92 fel y'i cyflwynwyd), Rhan 4, Datgelu gwybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau.
    - Gwelliant NC3, Gwybodaeth a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru.

8. Fodd bynnag, argymhellais na ddylid rhoi cydsyniad i'r darpariaethau canlynol i ganiatáu cynnal trafodaethau pellach rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y DU mewn perthynas â goblygiadau datganoledig:
    - Cymal 60, Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol (cymal 56 fel y'i cyflwynwyd);
    - Cymalau 65-81, Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau (61-77 fel y'u cyflwynwyd); a gwelliant 46 – newid i gymal 61 data am gwsmeriaid a data am fusnesau;
    - Cymal 99, Rhan 4, Gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth gorfodi'r gyfraith (93 fel y'u cyflwynwyd) a gwelliannau 8-16 a NC5**,** cymal 108 (rheoliadau), ystyr "*appropriate national authority*".

9. Cyn y Cyfnod Adrodd, a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei welliannau i'r Bil ar 23 a 27 Tachwedd 2023.

10. Aseswyd y gwelliannau canlynol a gyflwynwyd ar 23 Tachwedd gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd**:**

- NC27, 103, 109, 126, 133: Cyrff rhyngwyneb (a diwygiadau canlyniadol)
- NC31: Atebolrwydd mewn iawndal
- NC32: Darpariaeth data arall
- Gwelliannau 82 i 196: gwelliannau amrywiol i Ran 3
- NC39, NS2, 215: Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol
- NC40: Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar
- NC41: Ymgynghori cyn y dyddiad cychwyn
- NC42: Trosglwyddo swyddogaethau penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol
- Gwelliannau 79-80: gwelliannau i gymalau 56 a 60 Gwasanaethau Dilysu Digidol

11. Yn dilyn dadansoddiad cyfreithiol o oblygiadau'r gwelliannau newydd hyn, ystyriaf fod gofyn gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol

hwn gerbron y Senedd am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 12 i 17 isod.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

*Cymalau 65 i 81 - Rhan 3: data am gwsmeriaid a data am fusnesau (Data Clyfar) (61-77 fel y'u cyflwynwyd)*

12. Mae cymalau 65 i 81 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a gwybodaeth am fusnesau i wella cludadwyedd data (Data Clyfar). Diben hyn yw gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cwsmer ac i fusnesau. Gan fod y ddau LCM wedi'u gosod yn flaenorol mewn perthynas â'r darpariaethau hynny, mae LCM pellach yn ofynnol ar gyfer gwelliannau at yr un diben. Y gwelliannau perthnasol yw:
    - NC27, 103, 109, 126, 133: Cyrff rhyngwyneb (a diwygiadau canlyniadol)
    - NC31: Atebolrwydd mewn iawndal
    - NC32: Darpariaeth data arall
    - Gwelliannau 82 i 196: gwelliannau amrywiol i Ran 3

*Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol*

13. Mae cymalau newydd yn y Bil yn diwygio Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ("Deddf 1991"), ac yn mewnosod Rhan ac Atodlen newydd iddi. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i gadw gofrestr o wybodaeth sy'n ymwneud â chyfarpar ar strydoedd, a bod y gofrestr honno'n cael ei galw'n Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR), ac maent yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â hynny.

14. Mae hwn yn fater lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli ac felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y gwelliannau canlynol:
    - NC39, NS2, 215: Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol
    - NC40: Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar
    - NC41: Ymgynghori cyn y dyddiad cychwyn
    - NC42: Trosglwyddo swyddogaethau penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol

15. Yn arbennig yn NC42, mae pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, i'w trosglwyddo o Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae NC42 hefyd yn dirymu OS Cymru ac yn cymhwyso OS Lloegr yn unig i Gymru.

16. Mae NC39 a NC40 yn diwygio Deddf 1991 fel bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 3A newydd, adran 79 neu 80.

*Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS)*

17. Mae cymalau 56 (54 fel y'i cyflwynwyd) a 60 (56 fel y'i cyflwynwyd) yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth at ddibenion darparu DVS. Y diben yw galluogi darpariaeth DVS ac nid yw'n ymwneud â

rheoleiddio darpariaeth y gwasanaeth hwnnw. Felly, gosodwyd y ddau LCM yn flaenorol mewn perthynas â'r darpariaethau hynny, ac mae angen LCM pellach ar gyfer gwelliannau at yr un diben. Y gwelliannau perthnasol yw:

- Gwelliannau 79-80: gwelliannau i gymalau 56 a 60 (54 a 56 fel y'u cyflwynwyd)

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

18. Nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno bod y darpariaethau newydd mewn perthynas â chymalau 56 a 60 y DVS yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Yn hytrach, mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod hyn yn fater a gedwir yn ôl am ei fod yn ymwneud â gwasanaethau rhyngrwyd a bod hynny'n gymwys i'r darpariaethau newydd hyn (gwelliannau 79 ac 80).

19. Rydym yn aros am asesiad Llywodraeth y DU o'r angen am gydsyniad deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r gwelliannau sy'n ymwneud â Rhan 3, cymalau 65 i 81, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau a'r darpariaethau newydd sy'n ymwneud â'r NUAR.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

20. Mae'r pryderon a amlinellir yn y ddau LCM blaenorol yn parhau mewn perthynas â goblygiadau datganoledig:

    - y pwerau gwneud rheoliadau sy'n cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys o dan Ran 3, cymalau 65-81 (61-77 fel y'u cyflwynwyd) y mae gwelliannau newydd NC27, 103, 109, 126, 133, NC31, NC32, ac 82 i 196, yn ymwneud â hwy (gweler paragraff 12).
    - y pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys gyhoeddi Cod Ymarfer mewn perthynas â chymal 56 (54 fel y'i cyflwynwyd) (DVS) y mae gwelliannau newydd 79-80 yn ymwneud â hwy (gweler paragraff 16). Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

21. Mae pryderon hefyd yn parhau mewn perthynas â'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar statws Digonolrwydd Data'r DU ac annibyniaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

22. Mewn perthynas â'r cymal newydd sy'n ymwneud â'r NUAR (y manylir arni ym mharagraff 13-16) mae pryderon polisi cyfansoddiadol ynghylch trosglwyddo'r pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, oddi wrth Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar lefel swyddogol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddeall hyn yn fanylach.

**Goblygiadau ariannol**

23. Mae'n debygol y bydd goblygiadau ariannol i Gymru o ganlyniad i'r darpariaethau NUAR newydd. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn ystyried rhyw fath o fodel gwefru ar gyfer defnyddio'r NUAR, yn seiliedig ar opsiwn model adfer costau nid er elw. Gall hyn gynnwys rhyw fath o daliadau gostyngol neu esemptiad ar gyfer cyrff sector cyhoeddus a busnesau bach a microfusnesau. Mae swyddogion yn gofyn i Lywodraeth y DU am fwy o fanylion am hyn, y costau tebygol i Gymru a'r hyn y bydd yn ei olygu'n ymarferol.

**Casgliad**

24. Yn fy marn i, nid yw'n briodol argymell rhoi cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a ganlyn nes bod trafodaethau pellach wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r materion a amlinellir ym mharagraffau 20-22 uchod:

- NC27, 103, 109, 126, 133: Cyrff rhyngwyneb (a diwygiadau canlyniadol)
- NC31: Atebolrwydd mewn iawndal
- NC32: Darpariaeth data arall
- Gwelliannau 82 i 196: gwelliannau amrywiol i Ran 3
- NC39, NS2, 215: Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol
- NC40: Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar
- NC41: Ymgynghori cyn y dyddiad cychwyn
- NC42: Trosglwyddo swyddogaethau penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol
- Gwelliannau 79-80: gwelliannau i gymalau 56 a 60 Gwasanaethau Dilysu Digidol

**Mark Drakeford AS**
**Prif Weinidog Cymru**
**11 Rhagfyr 2023**